WG35.S.137

# MARWNAD

ER PARCHUS GOF AM Y PARCH.

## CADWALADR OWEN,

## DOLWYDDELEN,

*Gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd, sir Feirionydd,*

YR HWN A FU FARW MAI 24ain, 1856, YN 67ain OED.

Gan ROBERT WILLIAMS, Llanuwchlyn,

1

Pa beth yw'r tristwch sydd ar gerdded,
Mae pawb â'u llygaid fel yn lli,
Yma îs wybren, tan ryw sobrwydd,
I'w gwel'd yn awr trwy'n gwledydd ni;
O rhowch atebion purion parod,
Pa beth fu'n peri'r trallod trist;
A ddarfu rhyw Dywysog syrthio,
Godidog cryf o Eglwys Crist?

2

Yn awr y tybiaf caf atebiad,
Mai hyn fu'n peri'r caled gur—
Calwaladr Owen, Doiwyddelen,
A roed mewn bedd, Wr parchus pur;
Darfu ei daith, a'i waith orphenodd,
A gorphwysodd mewn gwir ffydd;
Wel dyma'r achos o'n dangosiad,
Wnaeth bawb o'i ol mewn profiad prudd.

3

Fe deithiodd Dde a Gogledd Cymru,
Gan ddwys gyhoeddi'r Iesu a'i ras;
Bu tros ei Arglwydd, yn ei winllan,
Trwy'i oes yn ffyddlon wiwlan was:
Nid oedd nac oerwynt, gwlaw, neu eira,
A wnai ei attal ar un daith;

11829

X205312437

Gwnai bara'n ffyddlon trwy ei dymor,
Aeth at ei wobor am ei waith.

4

Cadwaladr Owen, Dolwyddelen,
Oedd ŵr digynhen, dyma'r gwir;
Fel gŵyr eglwysi sir Feirionydd,
Mae dirfawr sobrwydd trwy bob sir;
Son am ei briddo sydd fel breuddwyd,
Un fu mor ddiwyd yn ei ddydd;
Ond darfu ei daith, a'i waith orphenodd,
Drachefn gorphwysodd yn y ffydd.

5

Yr oedd e'n un llwyddianus hynod,
Fel 'r ym yn gwybod hyn i gyd;
A gwaith ei Dduw oedd ei hyfrydwch,
Tra bu, gwybyddwch, yn y byd;
Gweled gogoniant Crist ein Ceidwad
Oedd ei ddymuniad yn mhob man;
Tra daliai ei nerth parha'dd yn ffyddlon,
Ac O, mor union gwnaeth ei ran!

6

Ca'dd weled cynydd ar eglwysydd,
O'r môr i'r mynydd yn mhob man;
Cadwaladr Owen wnaeth ei egni
Trwy Gymru oll at godi'r gwan;
Darluniai effaith codwm Eden
A dialedd deddf uwch ben y byd,
Ac aberth Crist roed ar Galfaria,
A ddofodd lais y Dwyfol lid.

7

Rhybuddiai ddynion fod yn barod
Cyn delo diwrnod trallod trist,
Perswadio byddai bawb i ymorol
Safadwy Graig, sef Iesu Grist;
Nid pethau mawrion uwch amgyffred,
Ond pethau hawdd eu dirnad oedd;
'Roedd nefol hwyl ei anwyl enau
Yn traethu geiriau Crist ar goedd.

8

Darluniai ddull y farn ofnadwy,
A'r drwg o bechu yn y byd,

A bod y ddeddf am ddwyn melldithion
Am gamwedd meibion Adda i gyd;
Dangosai'r perygl i bawb oedi
Ymofyn crefydd yn ei grym,
A'r fraint o guro, a chael trugaredd,
Cyn delo llid dialedd llym.

9

Mae canoedd yn galaru am dano
A ddaethant trwyddo i geisio'r gwir,
Trwy sir Feirionydd, Môn, ac Arfon;
A Fflint, a Dinbych, dirion dir;
A sir Drefaldwyn a'r Deheudir,
Uniawn frodyr o un fryd,
Ar ol Cadwaladr Owen hawddgar
Maent tan eu galar yno i gyd.

10

A David Elias a fu farw,
Gwnaeth hyny alar chwerw a chur,
Trwy Fon ac Arfon, o gylch Pentraeth
Mae galar 'sywaeth, a phob sir;
Sef brawd i John Elias ydoedd,
Hwn fu mor gyhoedd gyda'r gair,
Trwy'n gwledydd ni'n cyhoeddi haeddiant
A ddaeth i'n meddiant trwy Fab Mair.

11

Cadwaladr Owen a bregethodd
Hyd nes ydoedd pawb yn syn,
Pedwerydd dydd o Fai diweddaf,
Ar destyn hynod ydoedd hyn,
Sef am gael craig a ddeil yn gadarn,
Sylfaen gref, sef Iesu Grist,
A'r sawl a'i caffo yn angau'n Briod,
Nid ofnant hwy un trallod trist.

12

Bu'n amyneddgar tan ei gystudd
Gan dd'wedyd, "Gwn fy Arglwydd Iôr
Sydd genyf fi yn noddfa gadarn
Yn mhob man, ar dir a môr;
Fe ddeil fy mhen yn afon angau,
Uwchlaw y tonau garwa'i gyd;
Myfi a gredais i'm Gwaredwr,
Yr hwn yw Barnwr mawr y byd."

13

Mis Mai pedwerydd dydd ar ugain,
  Yr oedd ei oes ar ben yn bod,
Pan ddaeth ei funud ef i fyny,
  Ac Angeu yn 'nelu at ei nod;
Terfynai'r einioes y pryd hyny,
  Gan folianu yr Iesu a'i ras
A'i cadwai'n deg ar ben ei yrfa,
  Er gwaethaf cleddyf angau glas.

14

Fe gafodd gladdedigaeth parchus
  Gan dyrfa fawr, alarus lu,
Gweddio a phregethu effeithiol
  Gan barchus wŷr rhagorol cu;
Rhoed marwol ran Cadwaladr Owen
  Yn mynwent Dolwyddelen ddwys,
Hyd foreu'r farn caiff nefol alwad,
  A'i geilw i'r lan o'r gauad gwys.

15

O gylch y Bala a Llanuwchlyn
  Mae galar dygyn nos a dydd;
'Rol colli'r hoff weinidog ffyddlon
  Fe gafodd Meirion brofion prudd;
Yr Arglwydd a bar'tô yn fuan
  Ryw un o ail ei anian e',
Fel Eliseus i wisgo'n addas
  Wir fantell Elias yn ei le.

16

Os gofyn neb pwy wnaeth ar ganiad
  Drom alarnad profiad prudd,
Atebwch mai un o Llanuwchlyn,
  Fu'n hoff o'i ddylyn yn ei ddydd;
R. ac W. sy am Robert William,
  Heb fod yn brydydd dinam da;
Cael myn'd fel hwn trwy afon angau,
  Pan ddarfo 'nyddiau, canu wna'.

*J. Mendus Jones, Argraffydd, Llanidloes.*